

Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

Hybrid – Ystafell Bwyllgora 5 Tŷ Hywel a

<http://senedd.tv/cy/13467>

fideogynadledda drwy Zoom

Dyddiad: Dydd Iau, 14 Medi 2023

Amser: 09.34 – 12.55

Hybrid

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau o'r Senedd:	Jayne Bryant AS (Cadeirydd) James Evans AS Heledd Fychan AS Laura Anne Jones AS Ken Skates AS Buffy Williams AS
Tystion:	Julie Morgan AS, Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol Alistair Davey, Llywodraeth Cymru Albert Heaney, Llywodraeth Cymru
Staff y Pwyllgor:	Naomi Stocks (Clerc) Tom Lewis-White (Ail Clerc) Sarah Bartlett (Dirprwy Clerc) Jennifer Cottle (Cyngorydd Cyfreithiol) Michael Dauncey (Ymchwilydd) Sian Hughes (Ymchwilydd)



1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

1.2 Ni chafwyd ymddiheuriadau.

2 Gwasanaethau i blant sydd â phrofiad o ofal: trafod diwygio radical – sesiwn graffu ar waith y Gweinidog

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol.

2.2 Cytunodd y Dirprwy Weinidog i ddarparu'r canlynol:

- rhagor o wybodaeth am y datblygiadau radical sy'n digwydd, gan gynnwys y pedair safon ddrafft a gynhyrchwyd;
- eglurder ynghylch canran y staff gwasanaethau plant yng Nghymru sy'n weithwyr asiantaeth;
- adborth, pan fydd ar gael, o'r adolygiad annibynnol o leoliadau asesu rhianta; a
- rhagor o wybodaeth ynghylch ariannu eiriolaeth rhieni yn y tymor hir.

3 Papurau i'w nodi

3.1 Cafodd y papurau eu nodi.

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn ac o'r cyfarfod cyfan ar 27 Medi

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

5 Gwasanaethau i blant sydd â phrofiad o ofal: trafod diwygio radical – ystyried y dystiolaeth.

5.1 Trafododd Aelodau, sefydliadau a phlant a phobl ifanc y dystiolaeth a glywyd yn y sesiwn flaenorol.

5.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog i fynd ar drywydd rhai o'r materion a godwyd.

6 Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024–25 – trafod y dull o weithredu

6.1 Cytunodd y Pwyllgor ar ei ddull ar gyfer craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru.

7 A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant? – Y newyddion diweddaraf am yr ymchwiliad

7.1 Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am yr ymchwiliad.

7.2 Cytunodd yr Aelodau ar sesiynau tystiolaeth lafar ychwanegol gyda chynrychiolwyr gweithwyr meddygol a phroffesiynau perthynol i iechyd.